CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/04/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Carys Roberts | Catrin Roberts | Gwynfor Jones |
| Gruffydd Willliams | Caren Jones | Rhys Llewelyn | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Rhian Sanson | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Iwan Evans, Wil Lake a Lleucu Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Arfon Hughes – eitem 4.2
   Rhian Sanson – eitem 9.3

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 11/03/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones  Eilio: Gwynfor Jones
   **Materion yn codi o'r cofnodion:**
   Ar gais rhai o'r aelodau rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar rai o'r materion a drafodwyd y mis diwethaf.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Llogi Siop Siarad –** Clerc & Cadeirydd
      Ar ôl derbyn ymholiad ynglŷn â llogi Siop Siarad ar gyfer cyfarfod yn ddiweddar mae angen penderfynnu os yw pawb yn fodlon i logi'r ystafell ac hefyd faint o ffi i'w godi.
      Penderfyniad: mae pawb yn fodlon i logi'r ystafell ond fe fydd yn rhaid penderfynnu ar y ffi pan fydd ymholiad arall wedi ei dderbyn.
   2. **Cronfa Coffa Wil Pent –** Gruffydd Williams
      Derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa uchod a llythyr yn gofyn am gefnogaeth ariannol i gadw'r gwasanaeth i fynd.
      Penderfyniad: cyfrannu £2,000.00 i'r gronfa unwaith y bydd arian wedi ei dderbyn i gyfrif CTN a gofyn am gydnabyddiaeth drwy roi logo CTN ar y wefan.
      Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Rhys Llewelyn

5. **Deddf Eiddo Cymdeithas Yr Iaith –** Cadeirydd
   Cafwyd trafodaeth ar y mater a cafodd yr aelodau y cyfle i leisio eu barn a rhoi eu sylwadau ar y mater ond gan na dderbyniwyd y wybodaeth mewn digon o amser i bawb fedru ei ddarllen cyn y pwyllgor penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf.

CYNGOR TREF NEFYN

## COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/04/2025 am 7yh

6. **Lan Môr Blwch –** Catrin Roberts
Cais yw hwn i drwsio'r wal sydd wedi malu ar y dde yng ngwaelod yr allt ac hefyd i glirio'r cerrig sydd wedi cael eu golchi fyny gan y llanw i waelod yr allt. Mae aelod lleol Morfa am fynd ar ôl Cyngor Gwynedd hefo'r ddau fater.

7. **Plac Dr Herbert Rees Wilson –** Arfon Hughes
Mae'r plac i fyny ar 'Summerhill' ac mae'r perchennog yn awyddus i gael gwasanaeth dadorchuddio hefo merch a teulu Dr Herbert Rees Wilson yn bresennol.
Penderfyniad: cafwyd awgrymiad i ofyn i Pwyllgor Penwythnos Porthi'r Penwaig os ydynt yn hapus i hyn ddigwydd yn ystod yr ŵyl a gofyn i blant Ysgol Nefyn i fod yn bresennol. Mae'r Cadeirydd am fynychu cyfarfod PPP nos yfory am ac sôn wrthynt. Cynigiodd un or aelodau Nefyn wneud datganiad i'r wasg am y digwyddiad.

8. **Biniau Mynwent Morfa –** Clerc
Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan y contractwr sy'n gwagio biniau mynwent Morfa i roi sticeri 'dim baw ci' ar y biniau yma gan fod y mwyafrif o'r gwastraff yn faw ci sydd ddim yn ddelfrydol pan mae o yn gorfod gwagio'r biniau â llaw ac yna mynd a nhw i Melin Plas Du. Mae'r biniau yma wedi cael eu symud i waelod y maes parcio oddi wrth y llwybr troed i geisio osgoi hyn ddigwydd ond mae'n amlwg nad ydyw wedi gweithio.
Penderfynaid: y Clerc i archebu sticeri a'u rhoi ar y biniau.
Cynnig: Rhian Sanson    Eilio: Rhys Llewelyn

9. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
   1. **Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn –** goleuadau nadolig Nefyn
   Penderfyniad: pasiwyd i roi cyfraniad tuag at y goleuadau ond fe fydd yn rhaid trafod faint ddiwedd y flwyddyn. I'r dyfodol fe fydd yn rhaid rhoi swm ar y gyllideb ar gyfer hyn bob blwyddyn a cynigiwyd hefyd i gael 'timers' ar y goleuadau fel nad ydynt ymlaen drwy'r dydd a'r nos er mwyn lleihau'r costau fel mae Edern yn gwneud.
   2. **Penwythnos Porthi'r Penwaig –** cais am gefnogaeth
   Penderfyniad: pasiwyd i dalu am y ganolfan a'r bynting hefyd ond fe fydd yn rhaid trafod pa fath o fynting. Mae'r Cadeirydd yn mynd i'r cyfarfod nos yfory ac am drafod y mater amser hynny ac adrodd yn ôl i CTN.
   Cynnig: Rhys Llewelyn    Eilio: Rhian Sanson
   3. **Cylch Meithrin Nefyn –** cais am gyfraniad ariannol**.**
   Penderfyniad: pasiwyd i roi cyfraniad o £5,000.00 i Cylch Meithrin Nefyn unwaith y bydd arian wedi ei dderbyn i gyfrif CTN.
   Cynnig: Gruffydd Williams    Eilio: Gareth Jones

10. **Ceisiadau Cynllunio**
**C25/0196/42/DT** - The Lodge, Lon Bodlondeb, Morfa Nefyn - Cais i ddiwygio'r to a chodi sied.

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/04/2025 am 7yh

Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad ac amharu ar breifatrwydd trigolion cyfagos.
Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Catrin Roberts
Ni chymerodd aelod lleol Nefyn ran yn y drafodaeth.
**C25/0240/42/DT -** Fron Oleu, Nefyn - Cais i godi estyniad deulawr ochr.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gwynfor Jones

**11. Ceisiadau Diweddarach**
**C25/0216/42/LL** - Tŷ Uchaf Lôn Isaf, Morfa Nefyn - Cais am adeilad allanol i gadw peiriannau garddio 10.2m o hyd x 5.2m o led x 4.2m o uchder.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Rhian Sanson Eilio: Arfon Hughes

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1496.38 (taliad Bacs)
- John Gwynfor Jones – agor bedd Annie Jones Williams & Philip Handley Stunt, Robert David Jones a Efa Lee Williams - £2100.00
- Dŵr Cymru – treth dŵr y Llyfrgell - £781.57 (debyd uniongyrchol)
- Cyngor Gwynedd – cytundeb glanhau Llyfrgell Nefyn 24-25 - £2452.32
- Clerc – ad-daliad tanysgrifiad google - £15.99
- Inigo Jones – plac Dr Herbert Rees Wilson - £1077.60
- Cyngor Gwynedd – treth Llyfrgell Nefyn 2025-2026 - £1405.80
- D M Parry – pedwerydd taliad mynwent Nefyn - £990.00
- HMRC – PAYE mis 1 - £395.85
- E.On Next – trydan LLyfrgell mis Mawrth - £180.10
- Alan Adams – taliad 1 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1430.28

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts

Cafwyd cynnig i ofyn am fesurydd dŵr ar gyfer y llyfrgell gan fod yr anfoneb yn uchel iawn.

**13. Taliadau wedi eu derbyn**

- G W Parry – angladd Griffith Richard Williams - £560.00
- Ifan Hughes – angladd Carlisle McDonald James Scott & Eurwen Scott, Robert Meirion Thomas a Robert Ifor Jones - £3130.00
- G D Roberts – angladd Janos Rakovics - £1300.00
- G W Parry – angladd Thomas Williams - £780.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

- G W Parry – angladd Enid Owen Williams - £915.00

Cais grant yr AHNE

Mae cais CTN wedi bod yn llwyddiannus ac wedi derbyn grant gan yr AHNE i ail wynebu llwybr yr arfordir o Nefyn i Morfa, llwybr o Bro Gwylwyr i'r Ddôl a Lôn Penrhos i Llwybr Penrallt ac fe fydd y gwaith yn cychwyn ar ôl gwyliau'r pasg.